2008 Blwyddyn Darllen Genedlaethol

Wythnos Llyfr yn Anrheg

7 - 12 Gorffennaf 2008

Eleni mae'n Flwyddyn Darllen Genedlaethol – blwyddyn i dynnu sylw at bwysigrwydd darllen ac i ddathlu'r pleser a'r mwynhad a geir trwy'r gair ysgrifenedig. Y mae Cyngor Llyfrau Cymru (gyda nawdd Llywodraeth y Cynulliad) yn cydlynu gweithgareddau'r flwyddyn yng Nghymru ac yn cynnal nifer o ymgyrchoedd er mwyn cefnogi amcanion y flwyddyn arbennig hon.

Un o brif ymgyrchoedd y Flwyddyn Darllen yng Nghymru yw'r ymgyrch Wythnos Llyfr yn Anrheg – sef canolbwyntio ar annog pobl o bob oed i roi llyfrau yn anrhegion i ffrindiau a theulu. Dyma ymgyrch y gall pawb drwy Gymru ymuno â hi, gan roi sylw gwych i lyfrau ac i ddarllen!

Mae adran arbennig ar gyfer Wythnos Llyfr yn Anrheg ar wefan y Flwyddyn Darllen www.blwyddyndarllengenedlaethol.org.uk ac mae cyfle yno i aelodau'r cyhoedd nodi pa lyfrau y byddan nhw'n eu rhoi'n anrhegion yn ystod yr wythnos.

CEFNOGWCH WYTHNOS LLYFR YN ANRHEG
7-12 GORFFENNAF 2008

Cystadleuaeth

Ydych chi'n mwynhau darllen? Os felly, dyma gyfle i ennill tocyn llyfr gwerth £20! Y cwbl sydd angen ei wneud yw ateb y cwestiwn canlynol:

Pwy enillodd Llyfr y Flwyddyn 2008 yn Gymraeg?

Gyrrwch yr ateb a'ch manylion at yrangor@hotmail.co.uk neu Yr Angor, 34 Cefn Esgair, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3JG. Bydd yr ateb cyntaf o'r het yn ennill.

Cylch Darllen Aber

Mae Elwyn Jones ('Wews') yn aelod brwd o Gylch Darllen Aberystwyth sy'n cwrdd unwaith ym mis. Yma, mae'n sôn am y mwynhad a gaiff wrth godi llyfr.

Dwi'n meddwl yn aml sut y byddwn yn egluro'r pleser o ddarllen llyfr i rywun sydd byth yn darllen. Mae'n anodd cyfleu mewn geiriau sut y gall person gael cymaint o brofiadau gwahanol wrth gydio mewn llyfr – mynd dan groen personoliaeth ddifyr mewn cofiant crefftus, ymweld â gwlad ddieithr heb symud o'ch sedd neu geisio datrys dirgelwch cyn i'r bennod olaf ddatgelu'r cwbl yn daclus. Mae'r cyfan yn bosib, wrth gwrs, drwy ymgolli mewn llyfr da.

Un peth sy'n sicr, does dim angen egluro'r ysfa i ddarllen i aelodau'r cylch darllen sy'n cyfarfod yn yr Orendy ar nos Lun cyntaf bob mis. Nid yn unig mae'r criw yn mwynhau'r darllen ond mi rydyn ni hefyd yn cael cyfle i drafod y llyfrau'n fanwl. Mae'n rhyfedd sut mae ambell un yn gweld arwyddocâd hollol wahanol mewn darn arbennig gan roi goleuni newydd ar y darlleniad. Gan mai consensws rhwng aelodau'r cylch yw'r drefn o ddewis y llyfr nesaf weithiau rydych chi'n darllen llyfr na fyddech wedi ei ddewis eich hun ac yn cael cyfle gwych i ehangu eich gorwelion.

Mae'r cylch yn mynd ers rhyw wyth mlynedd bellach, a dros y blynyddoedd rydym wedi darllen nifer fawr o lyfrau, gan gynnwys cyfrolau barddoniaeth, llyfrau taith a chofiannau, er mai nofelau yw'r mwyafrif a'r rhan fwyaf ohonynt yn Gymraeg. Rhyw unwaith y flwyddyn rydym yn dewis clasur o'r gorffennol gan ddod ag atgofion yn ôl o'r darlleniad cyntaf pan oeddem yn yr ysgol. Mae'r cinio Nadolig hefyd wedi mynd yn dipyn o draddodiad gyda phawb yn dod â llyfr wedi ei lapio'n ddestlus i'r aelodau gael dewis anrheg 'syrpreis' o'r sach.

Mae bri mawr ar gylchoedd darllen yn Lloegr ers rhai blynyddoedd ac mae'n amlwg fod y don wedi ymestyn i Gymru erbyn hyn. Roedd un llyfrgellydd yn dweud wrthyf yn ddiweddar bod 25 o gylchoedd darllen yn ardal Castell Nedd a Phort Talbot yn unig ac mae'n siŵr y bydd sawl un arall yn cael ei sefydlu yn ystod y Flwyddyn Ddarllen.

Ydy hyn wedi codi awydd arnoch chi i ymuno â ni? Mae croeso i ragor o aelodau bob amser a chyfle i bob barn (a rhagfarn) gael ei mynegi. Cysylltwch â mi ar Aberystwyth 624534 os hoffech gael mwy o wybodaeth am y cylch.

Wews yn ymlacio yn yr ardd gyda llyfr da

Salmau Cân Newydd

Addolygiad

Gwynn ap Gwilym Gomer £9.99

Cysylltwn yr ymadrodd 'Salmau Cân' ag enw Edmwnd Prys, gan iddynt gael eu cynnwys fel Atodiad i'r Llyfr Gweddi Gyffredin 1561. Gosodwyd pob salm ond rhyw bedair ar y mesur a elwir yn Fesur Salm. Yn y gyfrol hon, penderfynodd Gwynn ap Gwilym, yn ddoeth iawn, i amrywio'r mesurau a gosod y geiriau ar donau cyfarwydd, a mynd ati, yn ôl y Rhagair, i chwilio am donau bywiog ar gyfer y salmau llawen a rhai tawelach i'r salmau myfyrgar. Rhoddir enw'r dôn uwchben pob salm, e.e. Llef, Llantrisant, a'r gân werin 'Dwedwch fawrion o wybodaeth'. I salm 117, lle ceir dwy adnod yn unig, cyfansoddodd englyn a'i gosod ar Troyte's Chant.



Hoffais ddull cartrefol Gwynn ap Gwilym o gyflwyno rhai adnodau, e.e. Salm 41, adnod 6:

Pan ddelo un i'm gweld, mae'i sgwrs
Yn rhagrith oll i gyd;
Hel clonc amdanaf yw ei nod
I'w thaenu ar y stryd.

Yn Salm 33 adnod 7, aeth 'casglu y mae dyfroedd y môr ynghyd megis pentwr' yn '...fel dŵr mewn potel' ac yn Salm 109 ceir 'Aed ei eiddo i'r beiliaid/A'i enillion i estroniaid'. Y mae llawer mwy i'r llyfr na hyn, wrth gwrs, ond gobeithio i mi ddweud digon i roi rhyw gymaint o flas ar orchestwaith Gwynn ap Gwilym. *ME*